

Y Cyfarfod Llawn

Meeting date:
Dydd Mawrth, 27 Medi 2011

Meeting time:
13:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Votes and Proceedings (17) v3

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

14.27

PWYNT O DREFN

Cododd Andrew RT Davies bwynt o drefn ynghylch Aelodau yn camddyfynnu sylwadau a wnaed gan Aelodau eraill yn y cyfrynfau. Dyfarnodd y Llywydd fod pob Aelod yn gyfrifol am sicrhau cywirdeb eu cyfraniadau a gofynnodd i'r Aelod dan sylw i ddarllen y Cofnod ac i ailystyried ei sylwadau.

14.28

CYHOEDDIAD GAN Y LLYWYDD

Cyhoeddodd y Llywydd y bydd balot yn cael ei chynnal ar 19 Hydref 2011, o dan Reol Sefydlog 26.87, i benderfynu ar enw Aelod Cynulliad a gaiff, os yw'r Cynulliad yn cytuno ar hynny, gyflwyno ei Fil ei hun.

14.29

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

14.39

3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Lywodraethu

15.33

4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Flaenau Gwent

15.56

5. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty: Cydraddoldebau

16.35

6. Dadl ar Ddiwygio Gwasanaethau Cyhoeddus

NDM4807 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i hagenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Dileu "Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i hagenda"

a rhoi yn ei le

"Yn nodi agenda Llywodraeth Cymru"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth ddiffyg tryloywder cyhoeddiadau blaenorol Llywodraeth Cymru am ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Gwrthodwyd gwelliant 2.

Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddadansoddiad wedi'i gostio'n llawn o agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
57	0	0	57

Derbyniwyd gwelliant 3.

Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus mewn modd sy'n dod â'r trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus ynghyd, gyda'r dinesydd a'r gymuned yn y canol, gan ymateb i anghenion y cyhoedd a gan leihau'r galw ar wasanaethau eraill drwy ddull gweithredu sy'n edrych ar y gwasanaeth cyfan a chyd-gynhyrchu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
57	0	0	57

Derbyniwyd gwelliant 4.

Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus gael ffocws clir ar leihau'r bwlch gwariant ar ysgolion rhwng Cymru a Lloegr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
46	11	0	57

Derbyniwyd gwelliant 5.

Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder ddull gweithredu anghyson Llywodraeth Cymru o ran cydweithio wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Gwrthodwyd gwelliant 6.

Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus wedi cael ei gwneud yn glir ac yn credu y dylai ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag ar y broses o ddiwygio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Gwrthodwyd gwelliant 7.

Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyllid teg er mwyn gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
57	0	0	57

Derbyniwyd gwelliant 8.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

NDM4807 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i hagenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Yn galw am ddadansoddiad wedi'i gostio'n llawn o agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus mewn modd sy'n dod â'r trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus ynghyd, gyda'r dinesydd a'r gymuned yn y canol, gan ymateb i anghenion y cyhoedd a gan leihau'r galw ar wasanaethau eraill drwy ddull gweithredu sy'n edrych ar y gwasanaeth cyfan a chyd-gynhyrchu.

Yn credu y dylai agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus gael ffocws clir ar leihau'r bwlch gwariant ar ysgolion rhwng Cymru a Lloegr.

Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyllid teg er mwyn gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
57	0	0	57

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cyfnod Pleidleisio

The meeting concluded at 17.38.

The Assembly will sit again at Plenary at 13:30 on Dydd Mercher, 28 Medi 2011